| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODD I** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD** | **28 MEHEFIN 2017** |
| **PWNC** | **ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2016/17** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **RHEOLWR ARCHWILIO - SIONED PARRY** |
| **Natur yr adrodd a'r rheswm amdano -** Cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig a Safonau CIPFA UK a ddaeth i rym 1af Ebrill 2013, lle mae gofyn i Bennaeth Archwilio Mewnol roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrwydd ynghylch y system gyfan o reolaeth fewnol. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, mae gofyn i'r Cyngor gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol. Mae archwilio mewnol yn rhan annatod o'r system honno ac yn gyfrannwr arwyddocaol i'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n mynd law yn llaw â'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

1.2 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2013, rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrwydd ynghylch y system gyfan o reolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall Archwilio ei roi i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.3 Yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal trosolwg o fframwaith sicrwydd y Cyngor trwy ystyried y farn archwilio ar ddarnau unigol o waith archwilio mewnol, adolygu cynnydd wrth roi camau gwella ar waith yn codi o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae hefyd wedi cael sicrwydd o'r adroddiadau a gyflwynwyd gan reoleiddwyr allanol yr Awdurdod.

1.4 Mae'r adroddiad yn dadansoddi perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017 ac ynddo ceir datganiad sicrwydd sy'n seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2017. Ategir yr adroddiad gan **Atodiadau A i H** sy'n nodi cynnydd yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer 2016/17 a'r gwaith cynlluniedig (llithriad) na fu modd ei gyflawni yn ystod y flwyddyn.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cael sicrwydd fod gan Gyngor Sir Ynys Môn brosesau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol boddhaol yn eu lle am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 er mwyn rheoli a chefnogi gwaith y cyngor i gyflawni ei amcanion.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

### 3.1 Rôl Archwilio Mewnol

3.1.1 Rôl y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw rhoi i'r rheolwyr asesiad gwrthrychol o p'un a yw systemau a rheolaethau'n gweithio'n iawn. Mae'n rhan allweddol o system reolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw rheolaethau eraill fel bod:

- Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o faint y gallant ddibynnu ar y system gyfan; a bod
- Rheolwyr yn ymwybodol o faint y gellir dibynnu ar y systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

3.1.2 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys y rhwydwaith cyfan o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, fel bod modd sicrhau y byddir yn cwrdd â'i amcanion. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol ac eraill a threfniadau ar gyfer sicrhau fod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.

### 3.2 Perfformiad Archwilio Mewnol 1/4/16 i 31/3/17

3.2.1 Bob blwyddyn mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn cymryd rhan yng ngwaith meincnodi ar draws Cymru yn erbyn dangosyddion sy'n ymwneud â chost a chanlyniad. Nid oedd canlyniadau'r ymarfer meincnodi ar gyfer 2016/17 ar gael i'w cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond adroddir arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu pan gânt eu cyhoeddi.

3.2.2 Mae rhestr o berfformiad y Gwasanaeth yn erbyn targedau sefydledig ar gyfer y flwyddyn ynghlwm fel **Atodiad A** ac mae'n dangos fod y gwasanaeth wedi cyflawni **73.85%** o'r Cynllun Blynyddol yn erbyn targed o **80%** a dangosydd perfformiad cyfartalog Cymru gyfan o **85%**. Fodd bynnag, mae **3** archwiliad y mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo arnynt ddiwedd y flwyddyn ac unwaith y byddant wedi'u cwblhau byddant yn dangos fod **78.46%** o'r Cynllun Blynyddol wedi'i gyflawni. Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn chwarterol trwy gydol 2016/17 am y cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Blynyddol. Dyma'r prif resymau am y diffyg:

- Roedd y Cynllun Blynyddol wedi'i seilio ar lefel staffio o **5** swydd a Rheolwr Archwilio a'r Pennaeth Archwilio Mewnol a oedd gyfwerth â **5.68 staff (cyfwerth ag amser llawn)** a **1,542 diwrnod** yn y cynllun. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, roedd y lefelau staffio cyfwerth â **4.91 (cyfwerth ag amser llawn)**. Mae cyfnod mamolaeth, a ddechreuodd ar 8 Chwefror 2016 wedi gostwng yr adnodd archwilio **200 diwrnod**. Yn naturiol, mae hyn wedi cael effaith ar allu'r Gwasanaeth i gyflawni'r Cynllun Blynyddol;
- Nid oedd **6** prosiect y cychwynnwyd arnynt yn 2015/16 wedi eu cwblhau ar 31 Mawrth 2016 a chafodd y gwaith ei gario drosodd i 2016/17 fel gwaith a oedd yn mynd rhagddo; roedd hyn yn cyfrif am **111.55 diwrnod**;
- Cynhaliwyd **4** prosiect archwilio heb eu cynllunio sy'n cyfrif am **49.40** diwrnod arall;
- Roedd **7** prosiect archwilio ar y blaen i dargedau cynlluniedig am wahanol resymau dilys gan gyfrif am **97.62 diwrnod** ychwanegol;

3.2.3 Cwblhaodd y Gwasanaeth **48 archwiliad** yn ystod y flwyddyn ac o'r rhain roedd **4** heb eu cynllunio yn erbyn targed cynlluniedig o **65 archwiliad.**

3.2.4 Nod Archwilio Mewnol yw cynnig gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i bob un o'i gleientiaid ac mae'n defnyddio holiadur boddhad cleientiaid ar ddiwedd pob archwiliad er mwyn ceisio barn rheolwyr ynghylch ansawdd y gwasanaeth archwilio a roddwyd. Cafodd y gwasanaeth raddfa ymateb **100%** boddhaol oddi wrth gleientiaid yn ystod 2016/17 sy'n cymharu'n ffafriol â dangosydd cyfartalog Cymru o **99%**.

3.2.5 Cwblhaodd y Gwasanaeth **79.17%** o archwiliadau o fewn yr amser cynlluniedig yn erbyn dangosydd perfformiad heriol iawn o **90%**. Cafodd y **7** prosiect oedd ar y blaen i'r targedau cynlluniedig effaith ar y dangosydd hwn. Fodd bynnag, o gymharu â ffigwr cyfartalog Cymru gyfan o **68%** ar gyfer y dangosydd hwn, mae'r gwasanaeth yn dangos ei effeithlonrwydd yn cyflawni canran sylweddol o archwiliadau o fewn amser cynlluniedig.

3.2.6 **98.57%** yw'r dangosydd perfformiad yng nghyswllt nifer yr argymhellion a dderbyniwyd gan y rheolwyr. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r methiant i gytuno ar **4** argymhelliad allan o gyfanswm o **279** o argymhellion a wnaed. Aseswyd yr argymhellion fel rhai effaith isel ac nid oeddynt yn peri pryder.

3.2.7 Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n effeithlon o ran yr amser y mae'n ei gymryd i gyflwyno fersiynau draft o adroddiadau archwilio, gyda pherfformiad o **3.59 diwrnod** yn erbyn targed perfformiad o **7 diwrnod** a chyfartaledd Cymru gyfan o **7.2 diwrnod**. Cymerodd y gwasanaeth, ar gyfartaledd, **2.05 diwrnod** i gyflwyno adroddiadau terfynol o dderbyn ymatebion rheolwyr o gymharu â tharged o **2 ddiwrnod** a chyfartaledd Cymru gyfan o **3.4 diwrnod**.

3.2.8 Ar gychwyn 2015/16, roedd gan y Gwasanaeth **4.91** swyddog **(cyfwerth ag amser llawn)** mewn swydd o gymharu â strwythur staffio o **5.68 cyfwerth ag amser llawn**. Mae Cyfrifydd dan Hyfforddiant wedi cael ei secondio am gyfnod o 6 mis yn lle swyddog sydd ar gyfnod mamolaeth o Ionawr i Fehefin 2016. Daeth trefniant allanoli rheolaeth y swyddogaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ben ar 31 Mawrth 2017 oherwydd penodi Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg o 1 Ebrill 2017.

3.2.9 Roedd gwelliant sylweddol yn lefelau salwch yn ystod 2017/18. Roedd salwch yn cyfrif am **12 diwrnod** o absenoldeb yn ystod 2016/17 o gymharu â tharged cenedlaethol o **45 diwrnod** a gwir absenoldeb o **117 diwrnod** 2015/16.

3.2.10 Yn olaf, dengys y dangosydd perfformiad yng nghyswllt costau staffio mai **£240.14** yw cost gyfartalog fesul diwrnod archwilio y codir yn uniongyrchol amdano yn erbyn cyfartaledd Cymru gyfan o **£227**.

## 3.3 Ffactorau sy'n cael Effaith ar Faint Gwaith Archwilio Mewnol

3.3.1 Cafwyd **258 diwrnod** o lithriadau yn y flwyddyn a arweiniodd at beidio â gweithredu **23** o brosiectau cynlluniedig am y rhesymau a nodir ym mharagraff 3.2.2 uchod. Nid oes modd rhoi sicrwydd archwilio yng nghyswllt archwiliadau a dynnwyd o Gynllun Blynyddol 2016/17. Bydd archwilio mewnol yn blaenoriaethu'r meysydd hynny ar gyfer eu harchwilio yn ystod 2017/18. Ynghlwm yn **Atodiad B** mae rhestr o'r union lithriad a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

## 4. SICRWYDD

4.1 Yn fy marn i, roedd gan Gyngor Sir Ynys Môn brosesau rheoli digonol ac effeithiol yn eu lle i reoli ei waith o gyflawni amcanion yr Awdurdod am y cyfnod 12 mis hyd at 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, mae'r sicrwydd wedi'i gymhwyso o ran y **23** prosiect archwilio a dynnwyd o'r Cynllun Blynyddol yn ystod 2016/17 am y rhesymau a nodir ym mharagraff 3.2.2. Wrth ddod i'r farn hon, rhoddwyd ystyriaeth i amryfal ffactorau fel y nodir isod.

### 4.2 Gwaith Archwilio Cynlluniedig a Gwblhawyd yn ystod y Flwyddyn

4.2.1 Cynhaliodd y gwasanaeth nifer o adolygiadau ar sail risg ar ystod eang o weithgarwch yn ystod y flwyddyn. Ynghlwm yn **Atodiad C** mae rhestr sy'n rhoi barn archwilio ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd prosesau rheoli yng nghyswllt yr holl aseiniadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2016/17. Mae'r rhestr yn crynhoi'r farn archwilio a nifer yr argymhellion a wnaed yng nghyswllt pob maes a adolygwyd ac yn nodi'n fyr y negeseuon allweddol a gyfyd o'r archwiliadau sy'n sail i'r sicrwydd a roddir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod ar gyfer 2016/17.

4.2.2 Mae pob un o'r archwiliadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn wedi arwain at lefelau cadarnhaol o sicrwydd ac eithrio'r archwiliadau isod a aseswyd fel rhai sy'n rhoi Sicrwydd Cyfyngedig ac a gânt eu crynhoi yn **Atodiad C**:

- Rheoliadau Allweddol Budd-dal Tai;
- Diogelu Corfforaethol;
- Gorchmynion Llys Gofal Plant dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus;
- Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu;
- Tai Gofal Ychwanegol – Trefniadau Comisiynu;
- Fframwaith Caffael Corfforaethol – Cydymffurfiaeth Gorfforaethol; ac
- Uned Cynnal a Chadw Tai.

4.2.3 Bydd yr archwiliadau a nodir uchod yn cael eu dilyn i fyny yn ystod 2017/18.

4.2.4 Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r Fframwaith Rheoli Risg yn ystod 2016/17 a ddangosodd ddatblygiad sylweddol yn ymgorffori rheoli risg yn yr Awdurdod.

4.2.5 Cynhaliwyd ail archwiliadau dilyn i fyny o Barhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TGCh a Pharhad Busnes ac adroddwyd arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Chwefror 2017. Dangoswyd bod cynnydd da wedi ei wneud o ran Parhad Busnes a chymryd camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac ailaseswyd lefel y sicrwydd i Sylweddol. O'r 8 argymhelliad a oedd yn parhau i fod angen sylw yn yr archwiliad dilyn i fyny cyntaf, cadarnhawyd bod 1 argymhelliad Lefel Uchel wedi ei weithredu a gwaith yn mynd rhagddo ar 4 o argymhellion sgôr uchel arall a 3 sgôr ganolig. Erys y lefel sicrwydd yn Rhesymol. Adroddir ar adolygiad pellach o Adfer ar ôl Trychineb TG i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 28 Mehefin 2017.

4.2.6 Parhaodd Archwilio Mewnol i ganolbwyntio adnoddau mewn meysydd oedd yn ymwneud â grantiau yn ystod 2016/17 er mwyn sicrhau fod y risgiau a gyflwynwyd gan y math o gyllido yn cael ei reoli'n briodol. Ni chafodd yr un risg sylweddol ei hadnabod yng nghyswllt y grantiau a adolygwyd.

4.2.7 Adnabu canlyniadau cyffredinol y gwaith Archwilio Mewnol **81.08%** o adolygiadau a arweiniodd at farn 'gadarnhaol' (Sylweddol neu Resymol) ac arweiniodd **18.92%** at farn sicrwydd 'negyddol' (Cyfyngedig neu Leiaf). Mae'r **18.92%** o adroddiadau a gafodd farn sicrwydd negyddol yn cynnwys **7** (7 Cyfyngedig, Dim Lleiaf).

4.2.8 Y farn gyffredinol am y systemau a adolygwyd yw Lefel Resymol o sicrwydd sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Seilir y lefel gyffredinol hon o sicrwydd ar sgôp y gwaith a wnaed, y camau a argymhellwyd i'r rheolwyr yn cael eu cymryd a'r systemau hynny'n parhau i weithredu fel y'u bwriadwyd.

**4.3 Gwaith Ychwanegol na Gynlluniwyd ar ei gyfer**

4.3.1 Mae'r gwasanaeth wedi cynnal **4** archwiliad ychwanegol heb eu cynllunio yn ystod y flwyddyn am y rhesymau a nodir yn **Atodiad D**. Roedd hyn yn cyfrif am **49.40 diwrnod** o waith.

**4.4 Camau Archwilio Dilynol a Thracio Argymhellion**

4.4.1 Er mwyn cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2013, mae'r Gwasanaeth yn gweithredu proses ddilyn i fyny ffurfiol er mwyn cadarnhau bod yr argymhellion a wnaed mewn adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu gweithredu gan reolwyr o fewn yr amser gofynnol. Bydd archwiliad dilyn i fyny, lle bynnag y mae hynny'n bosibl, yn cael ei gynnal chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol, ac eithrio'r archwiliadau hynny a oedd yn darparu lefelau sylweddol o sicrwydd a bod dim angen gwaith dilyn i fyny, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol posib o adnoddau archwilio.

4.4.2 Ynghlwm yn **Atodiad E** mae rhestr o'r **11** archwiliad y cymerwyd camau dilynol yn eu cylch. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac y gweithredwyd arnynt wedi hynny gan reolwyr ym mhob un o'r meysydd, ynghyd â barn archwilio ddiwygiedig ynghylch pa mor ddigonol yw'r rheolaethau mewnol. Bydd rhagor o waith dilynol yn cael ei wneud yn y meysydd hynny lle parheir i ddisgwyl gweithredu ar nifer sylweddol o argymhellion.


4.4.3 Gwelir yn **Nhabl 1** isod grynodeb o'r argymhellion a weithredwyd hyd at 31 Mawrth 2017.

| **Tabl 1 – Statws argymhellion y cytunwyd â nhw hyd at 31-3-2017** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Statws** | **Uchel** | **Canolig** | **Cyfanswm** | **%** |
| Cyflawn | 87 | 305 | 392 | 86 |
| Yn disgwyl eu gwneud | 20 | 42 | 62 | 14 |
| Cyfanswm | 107 | 347 | 454 | 100 |

4.4.4 Ar hyn o bryd, caiff argymhellion eu sgorio yn goch, amber, melyn neu wyrdd, yn unol â'r risg ganfyddedig fel yr amlinellir yn **Atodiad F**. Ni fydd Archwilio Mewnol yn cymryd camau dilynol ffurfiol ar y rhai a gaiff eu sgorio'n wyrdd ac ni chânt eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Hyd at 31 Mawrth 2017 roedd **86%** o argymhellion wedi'u cofnodi fel rhai wedi'u gweithredu.

4.4.5 Yn **Nhabl 2** isod gwelir graff yn dangos dadansoddiad o'r argymhellion a weithredwyd fesul gwasanaeth:

**Tabl 2**




4.4.6 Yn **Atodiad G** ceir copi o'r holl Argymhellion Uchel a Chanolig y mae disgwyl gweithredu arnynt.

## 4.5 Cyfeiriadau

4.5.1 Mae'r gwasanaeth wedi cynnal **11** o ymchwiliadau, gyda rhai ohonynt wedi'u dwyn ymlaen o 2015/16. Mae hyn wedi cyfrif am **224.46 diwrnod** gwaith o gymharu â tharged blynyddol o **153** diwrnod o waith atal twyll. Lle nodir materion rheoli wrth gyfeirio, cyflwynir adroddiad ar wahân i reolwyr yn manylu ar y camau gwella sy'n ofynnol. Ynghlwm yn **Atodiad H** mae dadansoddiad o'r mathau o ymchwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'u statws cyfredol a'r canlyniadau perthnasol.

4.5.2 Mae'r Swyddog Twyll Corfforaethol hefyd wedi ymchwilio i **9** o droseddau twyll Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gan arwain at adfer **£1,974.38**. Mae **381** o achosion o gyfatebu data'r Cynllun Twyll Cenedlaethol wedi'u prosesu yn ystod 2016/17 gan arwain at arbedion o **£2,529.42**.

## 4.6 Rheoli Risg a Pherfformiad

4.6.1 Mae gan yr Awdurdod Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n nodi'r camau ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau a'r targedau perfformiad a'r modd y cânt eu rhaeadru i Gynlluniau Gwasanaeth a gwerthusiadau unigol a dadansoddiad o anghenion hyfforddi. Caiff y cynnydd a wneir yn erbyn camau a gymerir a mesurau perfformiad ei fonitro ddwywaith y flwyddyn trwy Adolygiadau Darparu Gwasanaeth y bydd yr uwch reolwyr, aelodau'r Pwyllgor Gwaith a chynrychiolwyr craffu yn mynd iddynt.

4.6.2 Cadarnhaodd adolygiad Archwilio Mewnol o'r Fframwaith Rheoli Risg a gynhaliwyd yn 2015/16 gynnydd sylweddol mewn ymgorffori rheoli risg yn yr awdurdod a rhoi lefel 'Resymol' o sicrwydd.

4.6.3 Mewn archwiliad dilynol o'r Fframwaith Rheoli Risg ym mis Gorffennaf 2016, nodwyd bod cynnydd 'Rhesymol' wedi ei wneud o ran gweithredu'r tri argymhelliad a oedd yn parhau i fod angen sylw o archwiliad 2015/16. Aseswyd bod un argymhelliad categori Canolig wedi cael ei weithredu'n llawn ac aseswyd nad oedd un argymhelliad categori isel bellach yn berthnasol. Aseswyd yr argymhelliad fel un nad oedd wedi ei weithredu'n llawn a hynny oherwydd nad oedd y Cynlluniau Darparu Gwasanaeth wedi cael eu cyflwyno'n brydlon neu'n gyflawn gan y Gwasanaethau ac nad oedd y dystiolaeth gefnogol ar gyfer lliniaru un o'r pum prif risg ar gael.

4.6.4 Mae'r farn archwilio wedi'i seilio ar y casgliadau uchod a chanlyniadau Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru a gafwyd yn 2014/15 a ddaeth i'r casgliad fod y Cyngor wedi gwella ei brosesau rheoli risg oedd gynt yn gymhleth ac anghyson.

**4.7 Trefniadau Sgriwtini**

4.7.1 Daeth Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad fod rhaglenni gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini yn eang eu hystod o reidrwydd ond fod cadeiryddion a swyddogion cefnogi sgriwtini'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i flaenoriaethu, gan dynnu'n effeithiol ar flaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith. Mae'r swyddogaeth sgriwtini'n ychwanegu gwerth at waith y Cyngor ac yn rhoi sicrwydd fod y penderfyniadau a wneir yn gadarn ac yn ddigon cytbwys.

4.7.2 Yn dilyn adroddiad SAC, Sgriwtini Da Cwestiwn Da, comisiynodd y Cyngor y Ganolfan Sgriwtini Gyhoeddus i gynnal adolygiad sgriwtini yn yr Awdurdod. Er bod nifer o welliannau wedi cael eu gwneud, canfu'r adolygiad nad oedd potensial sgriwtini o ran cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth wedi cael ei wireddu'n llawn. Mewn ymgynghoriad gyda'r Ganolfan Sgriwtini Gyhoeddus, datblygwyd cynllun gweithredu cynhwysfawr gyda'r nod o sefydlu diwylliant corfforaethol sy'n agored ac sy'n herio. Mae Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar yr asesiad hwn i bwrpas yr adroddiad blynyddol.

**4.8 Digwyddiadau Arwyddocaol yn ystod y Flwyddyn**

4.8.1 Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn y mae angen cyfeirio atynt yn yr Adroddiad Blynyddol.

## 5. DIFFINIAD BARN AC ARGYMHELLION ARCHWILIO

5.1 Mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu farn ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol gwaith yr Awdurdod o ran llywodraethu, systemau rheoli risg ac amgylchedd rheolaethau mewnol, er mwyn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol CIPFA. Y farn gyffredinol yw un o sicrwydd a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

5.2 Mae'r farn archwilio ar yr aseiniadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Sicrwydd Sylweddol
- Sicrwydd Rhesymol
- Sicrwydd Cyfyngedig

- Sicrwydd Lleiaf

5.3. Er mwyn ategu'r farn archwilio, mae'r argymhellion sydd wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn wedi'u categoreiddio'n unol â'r Matrics Risg Corfforaethol. Ynghlwm yn **Atodiad F** mae diffiniadau o sgôr risg argymhellion a'r farn archwilio.

## 6. MATERION ERAILL

### 6.1 Cymwyseddau i'r Farn Archwilio

6.1.1 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, nad oes gwendidau mawr ac eithrio'r rhai hynny a nodwyd.

6.1.2 Mae'r cymwyseddau i'r Farn Archwilio wedi'u cyflwyno ym mharagraff **3.5.1** uchod ac wrth ddod i'n barn, rydym wedi ystyried:

- Canlyniadau pob archwiliad a wnaed yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017;
- Canlyniadau'r camau dilynol a gymerwyd yng nghyswllt archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod 2016/17 a monitro gweithrediad argymhellion yn ystod blynyddoedd blaenorol;
- A oes argymhellion categori Uchel neu Ganolig heb eu derbyn gan reolwyr a'r risgiau yn sgil hynny;
- Effeithiau unrhyw newidiadau o bwys yn amcanion neu weithgarwch y sefydliad;
- Materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
- Oes cyfyngiadau wedi'u rhoi ar sgôp archwilio mewnol ai peidio;
- Cyfyngiadau adnoddau'r Gwasanaeth a pha gyfran o anghenion Archwilio Mewnol y sefydliad sydd wedi cael sylw hyd yn hyn;
- Y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru, Deloittes a rheoleiddwyr allanol eraill.

### 6.2 Cwrdd ag Anghenion Archwilio Mewnol

6.2.1 Er nad yw anghenion archwilio'r Awdurdod wedi'u bodloni'n llawn yn 2016/17, rwyf yn fodlon fod Archwilio Mewnol wedi gwneud digon o waith yng nghyswllt yr amgylchedd rheoli er mwyn dod i farn gyffredinol, er nad yw hyn yn ymestyn i'r amgylchedd rheoli yng nghyswllt y **23** archwiliad cynlluniedig a dynnwyd o'r Cynllun Blynyddol yn ystod 2016/17.

### 6.3 Derbyn yr Argymhellion

6.3.1. Derbyniwyd **98.57%** o argymhellion gan y rheolwyr. Methwyd cytuno ar **4** argymhelliad allan o gyfanswm o **279** o argymhellion a wnaed. Cafodd yr argymhellion eu hasesu fel rhai effaith isel ac nid oeddynt yn peri pryder.

### 6.4 Y Ddibyniaeth ar Waith gan Gyrff Sicrwydd Eraill

6.4.1 Mae Archwilio Mewnol wedi ystyried y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth ddrafftio'r Adroddiad Blynyddol a ffurfio barn gyffredinol am y cyfnod.

**6.5 Materion a Fernir sy’n Berthnasol i’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

6.5.1 Mae’r Rheolwr Archwilio’n ymwybodol o feysydd lle byddai gwendidau sylweddol mewn rheolaeth yn atal y Cyngor rhag dibynnu’n rhesymol ar systemau rheoli mewnol yng nghyswllt gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

6.5.2 Bydd y meysydd yn parhau i fod yn bryder i Archwilio Mewnol hyd oni weithredir ar yr holl argymhellion arwyddocaol a bod modd rhoi sicrwydd fod fframweithiau a systemau yn eu lle; wedi’u hymgorffori; yn gadarn ac yn effeithiol. Isod nodir y sefyllfa sydd ohoni yng nghyswllt y rhain:

6.5.3 **Fframwaith Caffael Corfforaethol** - Yn sgil cyflwyno’r Rheolau Caffael Contract newydd, mae adolygiad o’r trefniant Caffael wedi’i gynnwys yng Nghynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 er mwyn rhoi sicrwydd y bydd y newidiadau yn arwain at fwy o gydymffurfio â rheolau caffael, polisïau a gweithdrefnau.

6.5.4 Er bod fframwaith caffael wedi cael ei ddatblygu yn yr Awdurdod, mae lefel cydymffurfiaeth gyda Rheolau Gweithdrefn Contract a rheoliadau’r UE yn parhau i fod yn wan. Y broses gaffael hefyd yw elfen wanaf yr archwiliad o Drefniadau Comisiynu ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol.

6.5.5 **Diogelu Corfforaethol** - Mewn adolygiad o drefniadau diogelu corfforaethol yng Nghynghorau Cymru a gyhoeddwyd gan SAC ym mis Gorffennaf 2015, argymhellwyd y dylai cynghorau sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol er mwyn rhoi prawf ar systemau ac adolygu cydymffurfiaeth ymarferion diogelu’r cyngor.

Er bod cyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion wedi cael ei ddwyn ynghyd dan un Pennaeth Gwasanaeth (Plant), mae diogelu ‘yn fater i bawb’ – sef cyfeiriad at ein cyfrifoldeb fel corff. Mae rhai gwasanaethau yn y Cyngor yn araf i gynnwys amcanion diogelu yn eu prosesau cynllun busnes a sefydlu diogelu fel rhan sylfaenol o holl agweddau ein gwaith sy’n ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Adroddir ar adolygiad dilyniant mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 28 Mehefin 2017

6.5.6 **Gwasanaethau Plant - Gorchmynion Llys Diogelu Plant dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** - Protocol yw’r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus sy’n ceisio lleihau oedi dianghenraid mewn achosion llys teulu. Canfuwyd gwendidau o ran cadw cofnodiadau, casglu tystiolaeth a sgiliau llys sy’n hanfodol er mwyn sicrhau y gellir datrys materion yn gyflym. Nid oedd ymweliadau gan weithwyr cymorth yn cael eu cynnal bob amser yn unol â’r cynlluniau er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant plentyn. Arweiniodd yr archwiliad at sicrwydd cyfyngedig a bydd archwiliad dilyniant yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2017.

6.5.7 **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)** – cynhaliwyd archwiliad ganddynt o’r gwasanaethau ar gyfer plant yn Ynys Môn yn ystod Tachwedd 2016 a daethpwyd i’r casgliad “*fod arolygiaeth y rheolwyr o’r trefniadau diogelu, mynediad ac asesu yn annigonol a bod rhaid cyflymu’r newid wrth wella’r ddarpariaeth cymorth, gofal a chefnogaeth a/neu ddiogelu i blant a theuluoedd ar Ynys Môn”*. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn am ddiweddariad o ran cynnydd a wnaed ynghylch gweithredu’r cynllun gwella.

6.5.8 **Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu** - Nid yw’r Awdurdod wedi nodi lefel y gydymffurfiaeth angenrheidiol ac nid yw ychwaith wedi darparu rhaglen gydymffurfio er mwyn cwrdd â gofynion PCI DSS. Mae gweithgor trawsadrannol yn cynnwys y Pennaeth

Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fel hyrwyddwr wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda PCI DSS.

6.5.9 **Llywodraethiant – Cydymffurfio gyda Pholisïau'r Cyngor** – Yn Asesiad Corfforaethol 2014/15, nodwyd yr angen i sefydlu diwylliant o weithio corfforaethol cyson ymysg staff ar bob lefel ac iddynt gael eu dal i gyfrif am gydymffurfio gyda pholisïau'r Cyngor. Mae materion sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau allweddol wedi cael eu nodi yn yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2016/17, yn bennaf y Fframwaith Caffael Corfforaethol – Cydymffurfiaeth Gorfforaethol a Dilyniant Polisïau ac Arferion AD ar gyfer Rheoli'r Gweithlu.

## 6.6 Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol

6.6.1 Mae gan Archwilio Mewnol ddull archwilio seiliedig ar risg i bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau bob blwyddyn ac mae'n defnyddio methodoleg seiliedig ar risg wrth gynllunio a chynnal aseiniadau archwilio. Mae gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i wneud wrth gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2013.

6.6.2 Mae Deloittes yn adolygu Archwilio Mewnol yn flynyddol er mwyn canfod a gydymffurfir â safonau archwilio.

6.6.3 Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud darpariaeth i adolygiadau ansawdd mewnol gael eu cynnal o bryd i'w gilydd gan aelodau profiadol o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol er mwyn gwerthuso:

- Cydymffurfiaeth â'r safonau trefniadaethol a gweithredol y cyfeirir atynt uchod,
- Ansawdd gwaith archwilio,
- Ansawdd goruchwyliaeth,
- Cydymffurfio â'r llawlyfr archwilio lleol,
- Y cyflawnir targedau perfformiad.

6.6.4 Mae'r adolygiad a gynhaliwyd yng nghyswllt y gwaith a wnaed yn ystod 2016/17 wedi dangos y cydymffurfir â safonau mewnol ac allanol.

6.6.5 Yn unol â'r Safonau, rhaid cynnal asesiad allanol o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan 'aseswr neu dîm asesu cymwys ac annibynnol o'r tu allan i'r sefydliad'. Cytunodd Grŵp Prif Archwilwyr Mewnol Cymru ar hunanasesiad gyda dilysiad allanol annibynnol ac mae wedi sefydlu sgôp yr asesiad a chylch gorchwyl. Cynhaliwyd Asesiad Cymheiriaid Gwasanaethau Archwilio Mewnol Ynys Môn ym mis Mawrth 2017 gan Bennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych.

6.6.6 Daeth yr asesiad allanol i'r casgliad bod yr holl strwythurau, polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y modd y cânt eu cymhwyso, yn cydymffurfio gyda gofynion y Safon neu'r elfen unigol o'r Côd Moeseg ym mhob agwedd berthnasol.

6.6.7 Daeth yr aseswr allanol i'r casgliad bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol Ynys Môn yn cael ei reoli'n effeithiol ac y cydymffurfir gyda'r mwyafrif o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a bod yr hunanasesiad yr adroddwyd arno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2016, eisoes yn cydnabod cydymffurfiaeth rannol. Un maes y mae angen ei gryfhau yw datblygu proses fapio ar gyfer sicrwydd archwilio er mwyn gwella cydlyniad y sicrwydd corfforaethol a roddir gan archwilio mewnol, rheoleiddwyr eraill a ffynonellau sicrwydd eraill, e.e. adroddiadau gan ymgynghorwyr, adroddiadau sgriwtini, adolygiadau cymheiriaid.

## 6.7 Rhaglenni Sicrwydd Ansawdd Mewnol

6.7.1 Er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith a wneir gan Archwilio Mewnol, mae ystod o fesurau ansawdd yn eu lle sy'n cynnwys:

- Goruchwylio a chyfeirio staff sy'n cynnal gwaith archwilio;
- Defnyddio holiaduron boddhad cleientiaid;
- Adolygiad dogfennol o'r holl ffeiliau o bapurau ac adroddiadau gweithio gan reolwyr;
- Gwerthusiad blynyddol o staff archwilio yn arwain at gynlluniau gwaith hyfforddiant a datblygiad personol;
- Cynnal Llawlyfr Archwilio Mewnol y gwasanaeth;
- Hunanasesiad blynyddol;
- Asesiad allanol bob pum mlynedd.

# 7. Y DATGANIAD O SICRWYDD

## 7.1 Sicrwydd Cyffredinol

7.1.1 Mae gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i gynnal mewn cydymffurfiaeth â safonau archwilio mewnol proffesiynol sydd yn Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus CIPFA 2013.

7.1.2 Swyddogaeth sicrwydd yw Archwilio Mewnol sy'n rhoi barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ar yr amgylchedd rheoli, trwy werthuso ei effeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion y sefydliad. Mae gwaith Archwilio Mewnol wedi'i gysylltu â nifer o nodau ac amcanion corfforaethol y Cyngor ac mae'n cwrdd â gofynion statudol ac yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor y cytunwyd â nhw.

7.1.3 Mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sicrwydd ar y system rheoli fewnol gyfan, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol. Dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall Archwilio ei roi i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol. Materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yn unig yw'r materion a godir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, neu o'r holl welliannau y gallent fod yn ofynnol.

## 7.2 Barn Archwilio

7.2.1 Rwyf yn fodlon fod y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol o ran pa mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli'r Cyngor ar gyfer y meysydd a gafodd eu hadolygu. Rwyf yn fodlon fod gwaith y rheolyddion allanol ynghyd ag adolygiadau perfformiad gwasanaeth yr Awdurdod yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol fod gan Gyngor Sir Ynys Môn brosesau boddhaol o ran rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol i gyflawni amcanion y sefydliad am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

**Gellid defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

**TARGEDAU PERFFORMIAD ARCHWILIO MEWNOL 2016/17** **ATODIAD A**

| Disgrifiad | CSYM Gwirioneddol 2013/14 | CSYM Gwirioneddol ar 31/3/15 | CSYM Gwirioneddol ar 31/3/16 | CSYM Gwirioneddol ar 31/03/17 | CSYM Targed 2016/17 | Cyfartaledd Cymru 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** % yr Archwiliadau Cynlluniedig a Gwblhawyd | 81% | 92% | 60.32% | 73.85% | 80% | 85% |
| **2.** Nifer yr Archwiliadau | 51 | 46 | 38 | 48 | 65 | 97 |
| **3.** % Ymatebion 'Boddhaol' gan Gleientiaid | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 99% |
| **4.** % yr Argymhellion a dderbyniwyd | 100% | 100% | 98% | 98.57% | 100% | 99% |
| **5.** % Gweithredu Argymhellion Lefel Uchel a Chanolig mewn archwiliadau Dilyn-i-fyny | 46% | 49% | 74% | 86% | 85% | D/B |
| **6.** % yr Archwiliadau a gwblhawyd o fewn yr amser a gynlluniwyd | D/B | D/B | 78.95% | 79.17% | 90% | 68% |
| **7.** % yr amser y codir amdano'n uniongyrchol yn erbyn y cyfanswm sydd ar gael | D/B | D/B | 59.74% | 60.37% | 70% | 67% |
| **8.** Nifer y dyddiadau ar gyfartaledd o'r cyfarfod cau i gyhoeddi'r adroddiad drafft | D/B | D/B | 6.61 diwrnod | 3.59 diwrnod | 7 diwrnod | 7.2 diwrnod |
| **9.** Nifer y dyddiau ar gyfartaledd rhwng yr ymateb i'r adroddiad drafft a chyhoeddi'r adroddiad terfynol | D/B | D/B | 2.41 diwrnod | 2.05 diwrnod | 2 ddiwrnod | 3.4 diwrnod |
| **10.** Y gost wirioneddol fesul diwrnod archwilio y codir amdano'n uniongyrchol | £245 | £238 | £318 | £240.14 | £280 | £227 |
| **11.** Nifer staff Archwilio | 5.5 | 5.6 | 5.68 | 5.68 | 5 | 8.1 |
| **12.** % y staff a adawodd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10% |

MAWRTH 2017

**ATODIAD B**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**ARCHWILIO MEWNOL**
**LLITHRIAD 1-4-16 I 31-03-17**

| TASGAU | RHESWM | DYDDIAU | SGÔR RISG |
|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL**<br>Archwilio Contractau – Gwariant Cyfalaf | Diffyg adnoddau archwilio | 20 | Amherthnasol |
| Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth | Cynhaliwyd archwiliad ym mis Hydref 2015 | 15 | Rhesymol |
| Rhaglen Drawsnewid – Gweithio'n Gallach | I'w gynnal yn 2017/18 yn dilyn gweithredu newidiadau i lety swyddfeydd a gweithio'n hyblyg. | 15 | Adolygiad unwaith ac am byth |
| **ADNODDAU**<br>Credydwyr | Cynhaliwyd archwiliad dilyn i fyny yn Ionawr 2016 | 10 | Rhesymol |
| Mân ddyledwyr | Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth – Mehefin 2017 | 10 | Cyfyngedig |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | Llithirad am gyfnod amhenodol oherwydd bod y trefniadau llywodraethiant yn newid. Efallai y daw'r Ymddiriedolaeth yn Gwmni Corfforedig. | 10 | Amhenodol |
| **BUSNES Y CYNGOR**<br>Democrataidd a Gwasanaethau Aelodau | Diffyg adnodd archwilio | 8 | Amherthnasol |
| **TRAWSNEWID**<br>Archwilio TG | Diffyg adnodd archwilio | 40 | Amherthnasol |
| **ADFYWIO ECONOMAIDD A CHYMUNEDOL**<br>Astudiaethau Iechyd yr Amgylchedd | Adroddiad SAC ym mis Hydref 2014. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan y CIEH yng Nghymru mewn ymgynghoriad gyda grŵp Penaethiaid Iechyd Amgylcheddol Cymru. Unwaith y bydd y Safonau ymarfer orau wedi cael eu mabwysiadu, bydd yr awdurdod yn eu defnyddio fel sy'n briodol. | 15 | Anhysbys |
| Swyddogaeth Hamdden a Pherfformiad | Trawsnewid y Gwasanaethau Hamdden | 10 | Sylweddol |
| Swyddfa Rheoli Prosiect | Diffyg adnodd archwilio. | 10 | Amherthnasol |
| **PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH AC EIDDO**<br>Gwasanaethau Dylunio a Chynnal a Chadw | Diffyg adnodd archwilio | 10 | Anhysbys |
| Gwasanaethau Peirianneg a Dylunio | Diffyg adnodd archwilio | 10 | Anhysbys |
| Rheoli Llifogydd | Diffyg adnodd archwilio | 10 | Anhysbys |

**ATODIAD B**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Tai**<br>Yr Uned Fusnes a Llywodraethiant y CRT | Diffyg adnodd archwilio | 10 | Anhysbys |
| Atal Digartrefedd, Gosod Tai ac ati | Diffyg adnodd archwilio | 10 | Anhysbys |
| **Gwasanaethau Oedolion**<br>Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed – Adolygu'r Strategaeth | Diffyg adnodd archwilio | 15 | Anhysbys |
| **Dysgu Gydol Oes**<br>Ysgolion Uwchradd | 3 ysgol | 30 | Amrywiol |
| **CYFANSWM Y LLITHRIAD** | | **258** | |

Ni chafodd y meysydd gwaith uchod yr oedd bwriad eu harchwilio sylw yn ystod 2016/17 am y resymau a roddir. Lle mae hynny'n berthnasol, bydd yr archwiliadau hynny na chawsant eu cynnal yn ystod 2016/17 yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu hadolygu yn 2017/18.

## Crynodeb o Argymhellion a Lefelau Sicrwydd 1-4-16 i 31-03-17 ATODIAD C

| | Teitl yr adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm yr Argymhellion Archwilio | Negeseuon allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwirio Stoc TLIU<br>DLO Stoc Gwirio<br>Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Mai 2016 | Tai | Amherthasol | Cynhaliwyd gwiriad stoc blynyddol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod yn Nepo'r UCA ar 28 Mawrth, 2016. Gwerth y stoc ar ddiwedd y flwyddyn oedd £134,515.08<br><br>**Barn:** Mae'r cofnodiadau stoc a gedwir yn y Depo yn ddigon cywir ac yn darparu cofnod dibynadwy o lefelau stoc fel yr oeddynt ar ddiwedd y flwyddyn. | Sylweddol |
| 2 | Rheolaethau Allweddol Budd-dal Tai<br>Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Mehefin 2016 | Tai | 12 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o'r adolygiad hwn:<br>▪ Caiff diweddariadau ar weithdrefnau eu dosbarthu drwy e-bost i staff Budd-dal Tai fel sy'n briodol. Defnyddir fforymau perthnasol a chyfarfodydd rhanbarthol amrywiol hefyd i rannu arfer da.<br>▪ Mae angen diweddaru canllawiau'r Awdurdod i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Canllawiau Gordaliadau Budd-dal Tai a gyhoeddwyd gan DWP yn ystod mis Chwefror 2015, ac a adolygwyd wedi hynny ym mis Gorffennaf 2015.<br>▪ Ni chanfuwyd bod tystiolaeth bob amser yn cael ei chadw ar ffeiliau hawlwyr yn unol â'r disgwyliad. | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ▪ Nid oedd cofnod o benderfyniadau a wnaed o ran y dull o adennill gordaliadau yn cael ei gadw ar ffeil. Disgwylir y byddai ffurflen Adennill Budd-dal Tai a ordalwyd a Gostyngiad Gormodol yn y Dreth Gyngor yn cael ei chwblhau fel cofnod o'r trywydd penderfyniadau a wnaed yn ystod y broses adfer.<br>▪ Mae yna broblemau pan yn cysoni'r symiau a awdurdodwyd i'w dileu a'r swm gwirioneddol a ddilëwyd ar y system Northgate SX3. Roedd un achos lle yr oedd y swm a ddilëwyd ar gyfer hawliwr unigol yn fwy na'r hyn a awdurdodwyd gan y Swyddog Adran 151.<br>▪ Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod gwaith monitro perfformiad a chymerir camau cadarnhaol i sicrhau bod cywirdeb yn gwella.<br>▪ Cymerwyd camau pellach i ychwanegu at y gordaliadau sy'n cael eu hadennill gordaliadau gyda chyfwerth ag un swyddog llawn amser yn treulio eu hamser yn ymdrin â gordaliadau.<br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiad at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gydag un argymhelliad categori Uchel, pum argymhelliad categori Canolig a chwe argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 3 | Diogelu Corfforaethol<br>Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Awst 2016 | Corfforaethol | 32 | Yn 2014/15, bu Swyddfa Archwilio Cymru'n ymchwilio i ba raddau yr oedd Cynghorau wedi sefydlu, ac yn gweithredu, prosesau a dulliau rheoli a sicrwydd effeithiol mewn perthynas â diogelu.<br>Argymhellodd yr adolygiad 'Archwilio Mewnol i gynnwys Diogelu yn ei raglen flynyddol i ddarparu | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sicrwydd ar effeithiolrwydd Diogelu Corfforaethol y Cyngor’.<br><br>Yn ystod 2013/14, cyfunodd y Cyngor y cyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion dan un Pennaeth Gwasanaeth (Plant). Yn 2014/15, sefydlwyd Bwrdd Diogelu Corfforaethol er mwyn sicrhau bod dyletswyddau allweddol y Cyngor mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn cael eu cyflawni’n ddigonol.<br><br>Cynhaliwyd archwiliad o Ddiogelu Corfforaethol fel rhan o’r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br><br>Canfu’r adolygiad:<br><br>• Nid oedd y Polisi a’r Gweithdrefnau Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu canllawiau statudol diweddar gan gynnwys y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016 a’r canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2015);<br><br>• Tystiolaeth gyfyngedig oedd ar gael bod gwybodaeth wedi cael ei rhannu ar benodiadau corfforaethol mewn perthynas â diogelu ac enwi uwch swyddogion i gyflawni swyddogaethau diogelu dynodedig;<br><br>• Defnydd cyfyngedig oedd yn cael ei wneud hefyd o fewnrwyd y Cyngor i roi cyhoeddusrwydd i, a | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hyrwyddo diogelwch yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys adrodd ar waith y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a chysylltu hynny â pholisïau a chynlluniau gweithredu ac atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion bregus;<br><br>• Er bod amcanion diogelu wedi cael eu hadlewyrchu yn y rhan fwyaf o'r cynlluniau datblygu gwasanaeth, nodwyd nad oedd aliniad bob amser gyda'r cofrestrau risg o ran cofnodi'r risgiau o ran diogelu;<br><br>• Er y cafwyd sicrwydd bod staff a chanddynt ddyletswyddau diogelu uniongyrchol wedi mynychu hyfforddiant diogelu / sesiynau gloywi yn ôl yr angen mae bwlch o ran staff yn gyffredinol yn mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer gwirwyr tystiolaeth (dilysu ID ar gyfer y broses GDG), swyddogion diogelu penodedig y tu allan i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac ysgolion; nid yw hyfforddiant recriwtio diogelach ar gyfer rheolwyr yn orfodol ar hyn o bryd;<br><br>• Cydymffurfiaeth gyfyngedig yn unig mewn perthynas â derbyn a gwirio tystlythyrau ar gyfer swyddi 'gweithgareddau a reoleiddir' cyn y cyfweliadau a chyfyngedig hefyd o ran cynnal cofnodiadau cyflawn fel tystiolaeth diogelu cyn cyflogi gan gynnwys tystlythyrau a gwiriadau GDG; | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Nodwyd rhai materion mewn perthynas â nodi swyddi sydd angen datgeliad GDG yn erbyn y meini prawf cymhwyster GDG; nodwyd eithriadau wrth asesu cydymffurfiaeth gyda pholisi GDG y Cyngor gan gynnwys GDG ar gyfer dechreuwyr newydd; asesiad risg ac adnewyddu'r gwiriad bob tair blynedd;<br><br>• Dim polisi corfforaethol ar ymdrin yn ddiogel â gwybodaeth a ddarperir gan y GDG ar gael i unigolion ar yr adeg y gofynnir iddynt gwblhau ffurflen gais am GDG neu ofyn am ganiatâd i ddefnyddio eu gwybodaeth i gael at unrhyw wasanaeth y mae'r GDG yn ei ddarparu;<br><br>• Nodwyd rhai eithriadau mewn perthynas â safonau diogelu mewn trefniadau contract gan gynnwys diffyg telerau ac amodau penodol yn ymwneud â:<br><br>- Yr angen i asiantaethau / sefydliadau fod â pholisïau a gweithdrefnau diogelu a chydymffurfio â nhw; a<br><br>- Rheoli perfformiad i sicrhau cydymffurfiaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau diogelu fel sy'n briodol.<br><br>• Nid yw'r adain Archwilio Mewnol yn adolygu'n rheolaidd ar hyn o bryd y safonau diogelu mewn adolygiadau o sefydliadau a chontractau newydd/cyfredol. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Barn**: Mae’r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaethau mewnol yn gyfyngedig. Mae rhai gwasanaethau yn y Cyngor yn araf i wreiddio amcanion diogelu yn eu prosesau cynllunio busnes ac ystyried diogelu fel rhan sylfaenol o bob agwedd o waith sy’n ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. | |
| 4 | Gorchmynion Llys Gofal Plant o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Rhag 2016 | Gwasanaethau Plant | 29 | Mae Adran 17 Deddf Plant 1989 yn datgan bod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyffredinol i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant o fewn ardal yr awdurdod ac i sicrhau bod y plant hynny’n cael eu magu gan eu teuluoedd.<br><br>Mae tynnu plentyn oddi ar ei rhiant yn angenrheidiol mewn rhai achosion er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plentyn. Protocol yw’r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) sy’n ceisio lleihau oedi dianghenraid mewn achosion llys teuluoedd.<br><br>Crynhoir prif ganfyddiadau’r adolygiad isod:<br><br>• Mae’r wybodaeth a gedwir ar RAISE (system cofnodion electronig iechyd a gofal cymdeithasol) yn annibynadwy oherwydd:<br><br>— oedi o ran llwytho dogfennau<br>— achosion lle mae dogfennau yn cael eu llwytho ar ffeil un sibling ar RAISE er eu bod yn berthnasol i’r holl siblingiaid.<br>— Diffyg tystiolaeth ar ffeiliau RAISE i ddangos pa gyfarfodydd cyn-achos a gynhaliwyd neu pa lythyrau swyddogol | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | anfonwyd at y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant yn eu hysbysu o’r penderfyniad a wnaed yn y Cyfarfod Porth Gadw Cyfreithiol ac yn rhestru pryderon yr Awdurdod Lleol.<br><br>• Nid yw’r Llythyr Cyn Achos yn rhoi amserlen ar gyfer y camau y mae’n rhaid i rieni eu cymryd er mwyn osgoi achosion llys.<br>• Nid oedd ymweliadau gweithwyr cefnogol bob tro’n cael eu cynnal yn unol â’r cynlluniau er mwyn sicrhau lles y plentyn/plant tra eu bod yn parhau i fod yng ngofal eu rhieni yn ystod achosion llys.<br>• Nid yw holl weithwyr y Gwasanaethau Plant wedi derbyn hyfforddiant Diogelu Data.<br>• Mae’r Gwasanaeth wedi adnabod yr angen am hyfforddiant pellach ar sgiliau llys ac wedi trefnu gweithdy hyfforddiant yn Seiliedig ar Gymwyseddau yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys dau ddiwrnod ar y pwnc “Y Gyfraith, Tystiolaeth, Gweithdrefn ac Arfer Orau” a dau ddiwrnod pellach yn rhoi sylw i sgiliau llys ac ysgrifennu adroddiadau. Adroddodd Rheolwyr bod y staff a oedd wedi bod ar y cwrs wedi rhoi adborth cadarnhaol.<br>• Yn ystod y flwyddyn gwnaed ymdrechion pellach i wella sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chasglu tystiolaeth drwy hysbysebu swydd Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – PLO / Arbenigwr Llys fydd yn cynorthwyo i hyrwyddo arfer gwaith cymdeithasol o ansawdd uchel ac yn cefnogi staff a rheolwyr i wella ymarfer mewn perthynas ag achosion gofal. Pan oedd yr archwiliad yn cael ei gynnal roedd y swydd wedi ei hysbysebu | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddwywaith ond nid oedd unrhyw un wedi ei apwyntio.<br><br>**Barn**: Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae bylchau yn y broses sy'n golygu bod y Gwasanaeth yn agored i risgiau. Mae angen i reolwyr gymryd camau gweithredu fydd yn cael effaith uchel i gymedrol. | |
| 5 | Ysgol Llannerchymedd | Mai 2016 | Dysgu Gydol Oes | 12 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Llannerch-y-medd a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Cynhaliwyd profion ar sampl o gofnodion incwm prydau ysgol, brecwast ysgol a chofnodion incwm cyffredinol a chanfuwyd eu bod yn gywir ac yn cael eu cadw i safon foddhaol<br><br>• Canfuwyd bod cyllideb yr ysgol yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y corff llywodraethu a bod materion ariannol yn cael eu trafod yn rheolaidd<br><br>• Nid oedd yr ysgol bob amser yn llenwi ffurflen archebu cyn prynu<br><br>• Nid oedd y ffurflen adolygu tâl athrawon ar gyfer 2015/16 wedi cael ei dychwelyd i'r Adran Addysg cyn 1 Medi 2015<br><br>• Yr ysgol i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988<br><br>**Barn:** Barn archwilio Sicrwydd rhesymol yn gyffredinol | Rhesymol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | o ganlyniad i'r adolygiad gyda dau argymhelliad categori canolig a thri argymhelliad categori isel yn cael eu cytuno gyda'r pennaeth. | |
| 6 | Ysgol Tywyn | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 4 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Tywyn a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Roedd y cofnod prydau ysgolion yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol, ond dylai lefel yr ôl-ddyledion gael ei monitro'n effeithiol yn unol â Chanllawiau'r Adran Addysg<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Mae cyfrifon cronfa'r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa'r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | Sylweddol |
| 7 | Ysgol Llandegfan | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 1 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Llandegfan a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Mae'r cofnod prydau ysgolion yn cael ei chynnal i safon uchel yn yr ysgol<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Mae cyfrifon cronfa'r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa'r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | |
| 8 | Ysgol Y Graig | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 5 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol y Graig a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Roedd cofnodion incwm cyffredinol a ffioedd gwersi cerddoriaeth yn gywir ac yn cael eu cynnal i safon foddhaol<br><br>• Dylai prydau ysgol gael eu cofnodi'n gywir a dylai'r ysgol fonitro lefel yr ôl-ddyledion yn effeithiol yn unol â Chanllawiau'r Adran Addysg.<br><br>**Barn:** barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiad gydag un argymhelliad categori Canolig a phedwar argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | pennaeth. | |
| 9 | Ysgol Llanfair PG | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 5 | Cynhaliwyd archwiliad yn Ysgol Llanfair PG fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad:<br><br>• Roedd cofnod prydau ysgol yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>**CAMAU ALLWEDDOL Y CYTUNWYD ARNYNT**<br><br>• Dylai archebion gael eu cwblhau cyn derbyn nwyddau<br><br>• Dylai'r ysgol adolygu ffioedd gosod yr ysgol bob blwyddyn<br><br>• Yr ysgol i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988<br><br>**Barn:** Barn archwilio Sicrwydd Rhesymol yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiad gyda dau argymhelliad categori Canolig a thri argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r pennaeth. | Rhesymol |
| 10 | Ysgol Esceifiog | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Esceifiog fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17. | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dyma’r canfyddiadau Allweddol o'r adolygiad:<br><br>• Mae'r cofnod prydau ysgolion yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu’n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Mae cyfrifon cronfa’r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa’r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | |
| 11 | Ffioedd Rheoli Adeiladu – Trefniadau Arolygu & Gorfodaeth | Mehefin 2016 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 8 | Dyma’r canfyddiadau allweddol o'r adolygiad hwn:<br>▪ Nid yw Taliadau Rheoli Adeiladu yn cael eu hadolygu'n flynyddol.<br>▪ Nid oes gweithdrefnau o ran nodi a sut i ymdrin ag achos / achos posibl o dorri'r Rheoliadau neu Weithdrefnau ynghylch cofnodi arolygiad / au.<br>▪ Nid oedd unrhyw weithdrefnau yn bodoli ar gyfer gweinyddu ad-daliadau..<br>▪ Ni fedrir cofnodi ymweliadau safle ar system CIVICA.<br>▪ Dim ffurflenni datgan diddordeb ffurfiol wedi cael eu llenwi gan swyddogion yn yr adain Rheoli Adeiladu.<br>▪ Dim gwaith cysoni yn cael ei wneud o ran anfonebu a chasglu incwm ar y system CIVICA. | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiad at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gydag wyth argymhelliad categori Canolig yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | |
| 12 | Ffioedd a Phrisiau Ceisiadau Cynllunio | Awst 2016 | Buddsoddiad ac Adfywiad Economaidd | 4 | Cafwyd oddeutu 1,400 o geisiadau cynllunio yn ystod 2015/16 – incwm o £528,386.44.<br><br>Mewn archwiliad a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17, nodwyd bod gan yr Adran Gynllunio drefniadau llywodraethiant priodol ar gyfer rheoli ei Cheisiadau Cynllunio.<br><br>Nid yw penderfyniad ynghylch ceisiadau cynllunio yn cael eu gwneud bob amser o fewn y cyfnod 8 wythnos statudol ac nid oes unrhyw gofrestr gyhoeddus o'r holl geisiadau cynllunio ar wefan yr Awdurdod.<br><br>**Barn**: Mae'r trefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | Sylweddol |
| 13 | Cydymffurfiad â Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu | Awst 2016 | Adnoddau | 18 | Prosesodd yr Awdurdod 8,200 o drafodion ar-lein a 12,400 o drafodion Chip & PIN lle nad oedd perchennog y cerdyn yn bresennol yn ystod 2015/16. Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2016, proseswyd 6,682 o drafodion gan yr Awdurdod a oedd werth £1,238,250.22.<br><br>Mae natur gludadwy a hwylustod cardiau yn golygu y gall fod yn agored i gamddefnydd a dylai'r Awdurdod gydymffurfio gyda'r Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS). | Cyfyngedig |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dyma brif ganfyddiadau'r adolygiad:<br><br>• Nid oes unrhyw gynllun cyflawni i amlinellu'r modd y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio gyda PCI DSS.<br><br>• Nid yw'r Awdurdod yn cynhyrchu datganiad blynyddol o gydymffurfiaeth gyda PCI DSS ac nid oes ganddo ychwaith ddangosyddion diffiniedig i fesur cydymffurfiaeth<br><br>• Nid yw'r Polisi Diogelwch TGCh a'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â PCI DSS<br><br>• Ar hyn o bryd, nid oes hyfforddiant ffurfiol ar gael i weithwyr o fewn 6 mis o gychwyn mewn swydd sy'n gyfrifol am brosesu taliadau gyda cherdyn<br><br>• Nid yw'r Awdurdod wedi nodi a mapio'r amgylchedd cerdyn credyd<br><br>• Nid yw'r Awdurdod wedi datblygu fframwaith rheoli diogelwch i gydymffurfio gyda PCI DSS<br><br>• Nid yw hunanasesiadau blynyddol yn cael eu cynnal.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae bylchau yn y broses sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Angen gweithrediad gan reolwyr ar lefel gymedrol i uchel. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Trefniadau Yswiriant | Tach 2016 | Adnoddau | 2 | Cyfanswm setliad yswiriant yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 30 Medi 2016 oedd £142,442.65 (o'r hawliadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod hwn).<br><br>Canfu'r archwiliad a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 bod gan yr Adran Adnoddau drefniadau llywodraethu priodol ar gyfer rheoli'r Gwasanaeth Yswiriant.<br><br>Ar hyn o bryd nid oes polisi yn manylu ar weithdrefnau'n ymwneud â ffurflenni, amserlenni a deddfwriaeth ynghylch hawliadau yswiriant.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. Ni chanfuwyd unrhyw gamgymeriadau sylweddol o bwys. | Sylweddol |
| 15 | Trefniadau Wrth Gefn Allan o Oriau | Rhag 2016 | Corfforaethol | 10 | Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau i bobl Ynys Môn. Mae'n rhaid i rai gwasanaethau wneud trefniadau wrth gefn tu allan i oriau swyddfa arferol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau arferol neu ymateb i argyfyngau. Mewn rhai achosion, gallai hyn fod er mwyn cwrdd â gofynion cyfreithiol neu statudol.<br><br>Cyfanswm taliadau i swyddogion unigol mewn perthynas â gweithredu cynlluniau wrth gefn yn 2015/16 oedd £96,795.60 a £47,024.47 yn 2016/17 hyd at gyfnod 6.<br><br>Crynhoir prif ganfyddiadau'r adolygiad isod:<br><br>• Nid oedd y cynllun taliadau ar gyfer dyletswyddau wrth gefn wedi'i ddiweddaru ar y mewnrwyd i | Rhesymol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | adlewyrchu'r dyfarniad cyflog diweddaraf.<br>• Er gwaetha'r disgwyliad y dylai'r holl weithwyr sy'n ymgymryd â dyletswyddau wrth gefn dderbyn taliad ar yr un sail yn dilyn y broses Arfarnu Swyddi, canfuwyd nifer o anghysonderau gyda rhai unigolion yn parhau i dderbyn taliad wrth gefn cyfartaleddol yn seiliedig ar gytundebau hanesyddol, er eu bod yn gweithio rota lawn.<br>• Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a adolygwyd yn cadw cofnodion digon manwl i gefnogi ceisiadau a wnaed am lwfansau wrth gefn; fodd bynnag, canfuwyd nad oedd un gwasanaeth yn cadw cofnod o'r galwadau allan o oriau a dderbyniwyd; ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn defnyddio cyfleusterau tracio galwadau na recordio galwadau.<br>• Nid oedd monitro yn digwydd yn gyson ar draws yr holl wasanaethau i asesu lefel y gwerth am arian mewn perthynas â gweithredu cynlluniau wrth gefn. Nid oedd effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cynlluniau wrth gefn a weithredwyd yn cael eu hadolygu fel mater o drefn ar lefel uwch reolwyr.<br><br>**Barn**: Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhesymol. Mae peth anghysondeb o ran gweithredu ac mae cyfleoedd yn bodoli o hyd i liniaru yn erbyn risgiau pellach. | |
| 16 | Tai Gofal Ychwanegol – Trefniadau Comisiynu | Rhag 2016 | Gwasanaethau Oedolion | 6 | Mae'r Prosiect Tai Gofal Ychwanegol yn rhan o raglen ehangach sef Rhaglen Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn, sy'n un o'r wyth blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17.<br><br>Crynhoir prif ganfyddiadau'r adolygiad isod: | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ▪ Er bod nifer o ddogfennau'r prosiect wedi eu cwblhau yn ôl y disgwyl, gellid gwella'r ddogfennaeth yn ymwneud â 'gwersi a ddysgwyd'.<br>▪ Y broses gaffael oedd elfen wanaf y mesurau rheoli a brofwyd. Nid oedd y Tîm Caffael yn rhan o'r broses hyd nes yr oedd y gwahoddiad i dendro wedi cael ei anfon at y Cymdeithasau Tai. Arweiniodd hyn at fethiant o ran cydymffurfio â'r rheoliadau a dewis y broses dendro fwyaf addas (proses wedi'i negodi) ar gyfer y math o brosiect.<br>▪ Gallai cyswllt a thrafodaethau buan gydag adrannau perthnasol megis Budd-daliadau Tai fod wedi arwain at broses gynllunio gryfach a dogfen dendr fwy cadarn a fyddai'n cynnig cymaint â phosib o wybodaeth i gynigwyr posibl. Efallai y byddai hyn wedi atal rhai o'r problemau a gafwyd yn ystod 2015, yn arbennig y mater yn ymwneud ag uchafswm y rhent sydd ar gael drwy Fudd-daliadau Tai a arweiniodd at y Tîm Prosiect yn trafod gyda'r cynigiwr, sy'n groes i reolau caffael ynglŷn â bod yn deg ac yn dryloyw.<br>▪ Bydd hyfforddiant caffael ar gyfer swyddogion rheoli prosiect yn arwain at well dealltwriaeth o'r broses caffael yn ei chyfanrwydd.<br>▪ Ni chynhwyswyd elfennau Diogelu yn y cytundebau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y cyfleuster Gofal Ychwanegol.<br>▪ Gwelodd Gwasanaethau Oedolion drosiant staff uchel yn ystod cyfnod y prosiect a ni lwyddodd y gwasanaeth i recriwtio Rheolwr Trawsnewid am beth amser. Gallai hyn fod wedi cael effaith andwyol ar reolaeth y prosiect.<br><br>**Barn**: Mae trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae bylchau yn y | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | broses sy'n golygu bod y gwasanaeth yn agored i risg. Nid yw amcanion yn cael eu gwireddu neu maent yn cael eu gwireddu heb gynnig gwerth am arian. | |
| 17 | Fframwaith Caffael Corfforaethol – Cydymffurfiaeth ar lefel Gorfforaethol | Mawrth 2017 | Adnoddau | 28 | Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br><br>Mae cydymffurfiaeth gyda phrosesau caffael wedi cael ei gydnabod fel man gwan mewn archwiliadau arferol blaenorol ac fe gynhaliwyd ymchwiliadau arbennig yn ystod 2016/17.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn:<br>• Mae gan y Tîm Caffael Corfforaethol Gynllun Gwella Caffael ac maent yn gweithio i wella cydymffurfiaeth gyda rheolau a rheolidau caffael ar lefel yr Awdurdod cyfan.<br>• Cymeradwywyd Strategaeth a Pholisi Caffael yr Awdurdod gan y Cyngor ar 14 Mai 2015.<br>• Caiff y Rheolau Gweithdrefn Contract (RhGC) eu hadolygu o bryd i'w gilydd ac maent yn gosod y sylfaen ar gyfer unrhyw weithgaredd caffael. Nid yw'r RhGC yn cynnwys trothwyon ariannol yr OJEU ar gyfer Cyflenwadau, Gwasanaethau a Gwaith Cyhoeddus.<br>• Mae Llawlyfr Caffael wedi cael ei ddatblygu ac mae'n darparu canllawiau ymarferol i'r broses gaffael ac yn cynnwys gwybodaeth am drothwyon tendro, gwahanol brosesau caffael ac ati. Roedd gwybodaeth ynghylch lefel trothwy tendro'r Awdurdod wedi ei nodi'n anghywir drwy'r ddogfen - fel £25k yn hytrach na £30k.<br>• Cynhaliwyd hyfforddiant caffael yn ystod 2015 ac mae cyfres o sesiynau hyfforddiant ar reoli contractau wedi eu cynllunio ar gyfer 2017. Nodwyd | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | bod anghysonderau a chamgymeriadau yn y sleidiau hyfforddiant ar gaffael sydd ar gael ar y fewnrwyd.<br>• Defnydd cyfyngedig a wnaed o fewnrwyd y Cyngor i rannu gwybodaeth ac i benodi hyrwyddwyr caffael. Nid yw'r Strategaeth a'r Polisi Caffael a'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Contractau ar gael ar y fewnrwyd na'r Porth Polisïau.<br>• Mae lefel cydymffurfiaeth gyda'r Rheolau Gweithdrefn Contract a rheoliadau UE yn amrywio ar hyd a lled yr Awdurdod. Er bod y RhGC yn datgan bod angen hysbysebu unrhyw gontract sy'n werth £25k neu fwy ar GwerthwchiGymru, nid dyma'r achos bob tro, roedd un enghraifft yn uwch na throthwy'r OJEU.<br>• Mae'r gofrestr gontractau ganolog yn anghyflawn ac nid yw ar gael ar fewnrwyd y Cyngor i ganiatáu ar gyfer penderfyniadau priodol ac amserol o ran prynu cyn i gontractau o'r fath ddod i ben.<br>• Mae'r Tîm Caffael wedi dadansoddi gwariant a data er mwyn nodi meysydd lle gallai ymarfer caffael ychwanegu gwerth am arian a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r rheolau a'r rheoliadau caffael perthnasol. Nid yw ymarferion caffael wedi cael eu cynnal ar gyfer yr holl feysydd ble daethpwyd o hyd i ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chontractau.<br>• Nid oes Polisi Caffael Cynaliadwy wedi cael ei sefydlu er mwyn rhoi sylw i egwyddorion datblygu cynaliadwy. Nid yw Asesiadau Risg Cynaliadwyedd ar gael ar gyfer contractau sy'n werth £25k neu fwy fel sy'n ofynnol dan Brotocol 3 Polisi Caffael Cymru.<br>• Ar hyn o bryd, nid yw perfformiad y Tîm Caffael Corfforaethol yn cael ei fesur a'i adrodd arno ar lefel gorfforaethol. Dylid creu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer yr Awdurdod cyfan er | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | mwyn cryfhau'r broses gaffael ac fel modd o fesur a yw nodi ac amcanion sefydliadol yn cael eu cyflawni.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae yna fylchau yn y broses sy'n golygu bod y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw amcanion yn cael eu cyflawni neu maent yn cael eu cyflawni heb sicrhau gwerth am arian. | |
| 18 | Ynys Ynni | Mawrth 2017 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 0 | Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br><br>Mae Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn™ yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o gydranddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat sy'n gweithio mewn partneriaeth i roi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil, datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni gan ddod ag enillion economaidd anferthol o bosib yn ei sgil.<br><br>Mae'r rhaglen yn cael ei rheoli'n dda gyda phrosesau llywodraethiant cadarn. Mae Cytundebau Perfformiad Cynllunio (PPA) wedi cael eu sefydlu'n ffurfiol a'u llofnodi gan yr holl bartïon.<br><br>Mae byrddau strategol wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob partneriaeth o gydranddeiliaid ac mae'r canlyniadau'n cael eu monitro a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd.<br><br>Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Ynys Ynni ynghyd â chamau lliniaru'n cael eu nodi yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Gofrestr Risg ar gyfer y Gwasanaeth Economaidd ac Adfywio Cymunedol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. Ni chanfuwyd unrhyw gamgymeriadau sylweddol o bwys. | Sylweddol |
| 19 | Diwylliant Moesegol | Mawrth 2017 | Corfforaethol | 19 | Cynhaliwyd adolygiad archwilio mewnol o Ddiwylliant Moesegol fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17. Mae'r angen i asesu dyluniad, | Rhesymol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gweithrediad ac effeithiolrwydd amcanion, rhaglenni a gweithgareddau moesegol y sefydliad wedi ei gynnwys dan y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus.<br><br>Dyma brif ganfyddiadau’r adolygiad hwn o’r diwylliant moesegol:<br><br>▪ Mae gan y Cyngor amrediad eang o bolisïau a rheolaeth ar safonau ymddygiad sydd, gyda’i gilydd, yn amrediad eang o bolisïau moesegol sy’n llywodraethu’r modd y mae’r Cyngor yn rhedeg ei fusnes ac yn sicrhau llywodraethiant teg a thryloyw.<br>▪ Mae trefniadau llywodraethiant y Cyngor, sydd wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad, yn cynnwys codau ymddygiad, protocolau a rheolau sefydlog ffurfiol sydd wedi cael eu sefydlu er mwyn rheoli ymddygiad unigolion a grwpiau yn yr awdurdod.<br>▪ Mae nifer o bolisïau corfforaethol ac AD wedi cael eu sefydlu sy’n cynnwys disgwyliadau moesegol ac sy’n tanlinellu ymrwymiad y Cyngor i foeseg ac sy’n ceisio sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion moesegol.<br>▪ Mae yna ffocws o’r newydd ar iechyd, dioglewcfh a lles corfforaethol yn dilyn cyfnod lle nad oedd polisïau wedi bod yn cael eu hadolygu’n rheolaidd, ychydig iawn o gyfarfodydd o’r Grŵp Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch yn cael eu cynnal ac ymgysylltiad a throsgolwg cyfyngedig ar lefel gorfforaethol o berfformiad mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles.<br><br>Fodd bynnag, mae’r bylchau canlynol yn gwanhau gallu’r Cyngor i hyrwyddo diwylliant moesegol:<br><br>▪ Nid oes system ffurfiol ar gael i fonitro cydymffurfiaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | contractwyr gyda rheolau iechyd a diogelwch ar sail barhaus a chael sicrhwydd bod gwerthoedd ac egwyddorion moesegol y Cyngor yn cael eu hadlewyrchu yn niwylliant ac arferion contractwyr.<br>▪ Nid oedd Cynlluniau Darparu Gwasanaeth, ym mhob achos, yn cynnwys camau gweithredu allweddol o ran cydymffurfio gyda strategaethau a pholisïau corfforaethol yn cynnwys:<br>- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol;<br>- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a;<br>- Goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn cynnwys yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy.<br>▪ Nid yw'r rhaglen o gontractau ar gyfer y dyfodol / y gofrestr gontractau'n cael ei chyhoeddi'n rhagweithiol ar wefan y Cyngor er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth agored a phenderfyniadau tryloyw yn unol ag egwyddorion Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru.<br>▪ Nid yw'r Cyngor wedi datblygu a mabwysiadu polisi Cynaliadwyedd sy'n dod â'r gwahanol feysydd ymarfer ac arbenigedd proffesiynol ynghyd i arwain datblygiadau at ddatrysiadau cynaliadwy er budd y gymuned leol a chenedlaethau'r dyfodol.<br>▪ Nid yw'r polisïau sy'n amlinellu gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer atal, dod o hyd i, ymchwilio i, ac erlyn achosion o dwyll a llygredd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru a'u rhoddi ar y Porth Polisïau er hwylustod.<br>▪ Nid oes unrhyw weithdrefn ar gyfer rhoi prawf o bryd i'w gilydd ar ddealltwriaeth a chydymffurfiaeth swyddogion gyda'r côd ymarfer (a pholisïau corfforaethol allweddol yn gyffredinol) ac atgyfnerthu ar sail reolaidd, y disgwyliadau o ran yr angen i ddatgan unrhyw ddiddordebau personol newydd (a | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | chyfredol) a all wrthdaro gyda dyletswydd gyhoeddus ac i gofrestru unrhyw roddion / lletygarwch a gawsant mewn perthynas â'u gwaith.<br>▪ Mae'r Cyngor wedi datblygu teclyn alinio gwerthoedd i'w ddefnyddio wrth recriwtio a datblygu staff. Mae materion technegol wrthi'n derbyn sylw fel y gellir cychwyn defnyddio'r teclyn.<br>▪ Nid yw'r Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol (2012-15) wedi cael ei hadolygu; canfuwyd problemau o safbwynt effeithiolrwydd system memo electronig mewnol Y Ddolen / Monitor i gyfathrebu negeseuon corfforaethol a sicrhau bod y diwylliant moesegol y mae'r Cyngor yn ei ddeisyfu'n cael ei sefydlu'n gadarn yn y sefydliad. Nid oes unrhyw broses ar gael ar gyfer diweddaru (cael gwared â / archifo gwybodaeth fel sy'n briodol) cynnwys y wefan er mwyn sicrhau mai gwybodaeth ddilys, gyfredol, cyson a pherthnasol sy'n cael ei harddangos.<br>▪ Nid oedd pob gweithiwr newydd yn cael hyfforddiant cynefino ac nid oedd unrhyw broses ar gael i fonitro presenoldeb mewn sesiwn gynefino gorfforaethol / cwblhau sesiwn gynefino'r gwasanaeth.<br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhesymol. | |
| 20 | Uned Cynnal Adeiladau | Mawrth 2017 | Tai | 18 | Cynhaliwyd yr archwiliad hwn fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br>Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad:<br>• Nid oes cyfleuster ar gyfer gwahaniad dyletswyddau ar gael ar System Orchard. Gall staff fynd i mewn iddi i greu, diwygio, cwblhau a chanslo gwybodaeth UCA ar Orchard ac mae ganddynt fynediad i adnoddau sydd y tu draw i'r hyn sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau; | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Nid oes modd ar hyn o bryd cael adroddiad o'r System Orchard yn rhestru hawliau mynediad defnyddwyr i reolwyr ei adolygu;<br>• Nid oes unrhyw weithdrefnau ysgrifenedig i roi cyfarwyddyd i staff ynghylch sut i ddefnyddio'r modiwl UCA yn Orchard a'r hawliau mynediad;<br>• Mae cysoni anfonebau a thasgau sydd wedi eu cofnodi ar Fodiwl UCA Orchard yn anodd oherwydd nid oes unrhyw gysylltiadau cyffredin rhwng y system taliadau CIVICA a'r system UCA ar Orchard.<br>• Mae'r manylion sy'n cael eu mewnbynnu ar gyfer dyddiadau cwblhau tasgau yn awgrym fod data'n cael ei ystumio i gyflawni targedau perfformiad ac mae hynny, gyda'r diffyg o reolaeth fewnol yn y system Orchard, yn tanseilio dilysrwydd data perfformiad. Mae yna risg bod modd ystumio neu gam-ddatgan data sy'n arwain at benderfyniadau gwael neu hyd yn oed y posibilrwydd o dwyll;<br>• Nid yw esboniadau ar gyfer canlso tasgau'n cael eu cofnodi na'u hawdurdodi;<br>• Nid yw system Orchard yr UCA yn cynnwys costau staff fesul tasg. Nid yw gwir gost pob tasg yn cael ei nodi a'i chodi amdani ac o'r herwydd mae'r cyfrif masnachu'n cael ei gam-ddatgan sy'n arwain at benderfyniadau a dadansoddiadau gwerth am arian gwael.<br><br>**Barn:** Mae trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Mae yna fylchau yn y broses sy'n golygu bod y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw'r amcanion yn cael eu diwallu neu maent yn cael eu diwallu mewn modd nad yw'n sicrhau gwerth am arian. | |

**ATODIAD D**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**ARCHWILIO MEWNOL**

**DADANSODDIAD O WAITH YCHWANEGOL NAD OEDD WEDI EI GYNLLUNIO A WNAED YN YSTOD 1 EBRILL 2016 I 31 MAWRTH 2017**

| | MAES | NATUR Y GWAITH | DYDDIAU ARCHWILIO |
|---|---|---|---|
| **1** | Corfforaethol / Dysgu Gydol Oes | Adolygiad proses amserlenni Addysg – Cais gan AD | 3.04 |
| **2** | Rhentu Doeth Cymru Gwarchod y Cyhoedd | Cafodd Archwilio Mewnol wybod ym mis Ebrill 2016 bod rhaid cyflwyno Tystysgrif Rhentu Doeth Cymru ac Adroddiad Archwilio Mewnol i LlC erbyn 31 Hydref 2016. | 7.32 |
| **3** | Prisiadau Asedau Priffyrdd | Archwiliad o systemau Asedau Priffyrdd mewn paratoad ar gyfer y newid yng Nghôd CIPFA a'r modd y caiff isadeiledd priffyrdd ei brisio o gost hanesyddol gyda dibrisiant i gost adnewyddu gyda dibrisiant a fyddai'n cael effaith sylweddol ar werth yr asedau ar y fantolen. Penderfynodd CIPFA yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth i beidio symud ymlaen i gyflwyno'r Côd Asedau Rhwydwaith Priffyrdd i ofynion adrodd ar gyfer awdurdodau lleol. | 30.54 |
| **4** | Asesiad Allanol o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus | Gwaith wedi ei wneud mewn paratoad ar gyfer asesiad allanol gan Bennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych. | 8.50 |
| | **CYFANSWM NIFER Y DYDDIAU** | | **49.40** |

...........................

**ATODIAD E**

# RHESTR O ARCHWILIADAU DILYN I FYNY

| | Disgrifiad | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad Dilyniant Fyny | Nifer yr Argymhellion | Argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw ac ar y gweill | Uchel | Canolig | Isel | Barn Archwilio Wreiddiol | Barn Archwilio Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Pentraeth Dilyniant | Mawrth 15 | Mehefin 16 | 11 | 6 (3 Ar y Gweill) | 0 | 6 | 0 | Rhesymol | Rhesymol |
| 2 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Henblas Dilyniant | Medi 14 | Mehefin 16 | 5 | 2 (2 Ar y Gweill) | 0 | 1 | 1 | Sylweddol | Sylweddol |
| 3 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Bodorgan Dilyniant | Awst 15 | Mehefin 16 | 19 | 7 | 0 | 6 | 1 | Rhesymol | Rhesymol |
| 4 | Fframwaith Rheoli Risg – Dilyniant | Medi 15 | Mehefin 16 | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 | Rhesymol | Rhesymol |
| 5 | Mân-ddyledwyr Dilyniant | Ebrill 15 | Mehefin 16 | 18 | 9 (3 Ar y Gweill) | 0 | 6 | 3 | Cyfyngedig | Cyfyngedig |
| 6 | Ysgol Cemaes Dilyniant | Hydref 15 | Gorffennaf 16 | 14 | 5 (1 Ar y Gweill) | 0 | 3 | 2 | Cyfyngedig | Rhesymol |
| 7 | Partneriaethau Dilyniant | Chwefror 16 | Rhagfyr 16 | 6 | 4 (2 Ar y Gweill) | 3 | 1 | 0 | Cyfyngedig | Rhesymol |
| 8 | Tai Fforddiadwy, Troi'n Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Ail Dilyniant | Rhagfyr 15 | Rhagfyr 16 | 18 | 9 (6 Ar y Gweill) | 3 | 3 | 3 | Cyfyngedig | Rhesymol |
| 9 | Adfer TGCh ar ôl Trychineb Ail Dilyniant | Mawrth 16 | Rhagfyr 16 | 8 | 7 (6 Ar y Gweill) | 4 | 3 | 0 | Rhesymol | Rhesymol |
| 10 | Parhad Busnes Ail Dilyniant | Mawrth 16 | Rhagfyr 16 | 5 | 2 Ar y Gweill | 1 | 1 | 0 | Rhesymol | Sylweddol |
| 11 | Polisïau ac Arferion Adnoddau Dynol ar gyfer Rheoli'r Gweithlu – Dilyniant | Chwefror 16 | Mawrth 17 | 12 | 10 (2 Ar y gweill) (5 new recs) | 1 | 4 | 5 | Cyfyngedig | Rhesymol |

**MATRICS RISG a LEFELAU SICRWYDD** **ATODIAD F**

| TEBYGOLRWYDD | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau | >70% | Bron Yn Sicr | A | | | | | |
| Digwyddiad yn debygol o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau | 30-70% | Tebygol | B | | | | | |
| Bydd y digwyddiad o bosib yn digwydd ar ryw adeg | 10-30% | Posib | C | | | | | |
| Digwyddiad yn annhebygol a all ddigwydd rhyw bryd | 1-10% | Anhebygol | D | | | | | |
| Digwyddiad prin fydd ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol | <1% | Prin | E | | | | | |
| | | | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | Dinod | Bychan | Cymedrol | Sylweddol | Trychinebus |
| Gwasanaeth | | | | Dim effaith ar ansawdd y gwasanaeth, tarfu gyfyngedig i weithrediadau | Mân effaith ar ansawdd y gwasanaeth, nid yw safonau gwasanaeth mân yn cael eu bodloni, amhariad tymor byr i weithrediadau | Gostyngiad sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth, amhariad difrifol i safonau gwasanaeth | Effaith sylweddol ar ansawdd gwasanaethau, safonau gwasanaeth lluosog heb eu bodloni, amhariad tymor hir i weithrediadau | Gostyngiad trychinebus yn ansawdd y gwasanaeth a safonau gwasanaeth allweddol ddim yn cael eu bodloni, ymyriad trychinebus hirdymor i weithrediadau |
| Enw Da | | | | Pryder cyhoeddus wedi ei gyfyngu i gwynion lleol | Mân sylw anffafriol lleol / cyhoeddus / cyfryngau a chwynion | Sylw andwyol lleol difrifol neu sylw andwyol mân yn y wasg rhanbarthol neu chenedlaethol | Beirniadaeth rhanbarthol difrifol neu genedlaethol negyddol | Condemniad rhanbarthol a chenedlaethol hir |
| Côst Ariannol (£) | | | | < £50k | £50k - £250k | £250k - £750k | £750k - £3m | >£3m |

| LEFEL SICRWYDD | DIFFINIAD | YMYRRAETH RHEOLWYR |
|---|---|---|
| SICRWYDD SYLWEDDOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. **Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw gamgymeriadau sylweddol na materol.** | Dim angen i'r rheolwyr gymryd unrhyw gamau gweithredu neu angen iddynt gymryd camau lefel isel yn unig. |
| SICRWYDD RHESYMOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn rhesymol. **Peth anghysondeb o ran gweithrediad ac mae cyfleoedd yn dal i fodoli i liniaru er mwyn atal unrhyw risgiau pellach.** | Angen gweithrediad gan Reolwyr ar lefel isel i gymedrol. Darganfyddiadau yn rai y gellir eu cadw ar lefel gwasanaeth. |
| SICRWYDD CYFYNGEDIG | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn gyfyngedig. **Mae bylchau yn y broses sy'n gadael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw amcanion yn cael eu bodloni neu maent yn cael eu bodloni heb gyflawni gwerth am arian.** | Angen gweithrediad gan Reolwyr ar lefel cymedrol i uchel. Darganfyddiadau yn rhai sydd angen eu datrys gan benaethiaid gwasanaeth ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA. |
| SICRWYDD LLEIAF | Mae diffygion sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol. **Ystyrir bod rheoliadau allweddol yn annigonol heb o leiaf un broses reoli gritigol. Mae hefyd angen gwella cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau presennol a dod o hyd i gamgymeriadau ac esgeulustod.** | Angen camau gweithredu effaith uchel gan Reolwyr mewn nifer o feysydd. Gwendidau rheoli sydd angen sylw brys gan yr UDA ac ymyrraeth o bosib gan y Pwyllgor Gwaith. |

**MATRICS RISG a LEFELAU SICRWYDD** **ATODIAD F**

**ATODIAD G**

**Argymhellion Blaenoriaeth Uchel gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 31/03/2017**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 1 | Rheolau Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | 8.3 Yn unol ag arfer gorau a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor, dylid gwahanu'r dyletswyddau a ganlyn yn systemau a ganlyn y Cyngor:<br><br>Dyledwyr a'r Cyfriflyfr – Dylid adolygu mynediad yr ariannwr at y system dyledwyr a'r cyfriflyfr er mwyn sicrhau y cynhelir y gwaith o wahanu dyletswyddau rhwng y rhai hynny sy'n derbyn incwm a'r rhai sy'n cofnodi incwm.<br><br>Dylai gwaith cysoni, yn cynnwys systemau dyledwyr, derbynebu arian, a chysoniadau banc gael eu hadolygu gan weithiwr annibynnol er mwyn sicrhau cywirdeb.<br><br>Dylai addasiadau/nodiadau credyd/gwaith dileu dyledion i ddyledwyr gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan weithiwr nad oes ganddo gyfrifoldeb am gofnodi'r trafodion hyn.<br><br>Credydwyr - Dylai adroddiad diwygiadau Cyflenwyr gael ei adolygu gan weithiwr ar lefel oruchwyliol nad oes ganddo fodd i newid manylion cyflenwyr, gwaith | 08/09/2014 | 31/12/2014 dyddiad wedi newid i 31/12/2015 | Pennaeth Adnoddau | Adolygu Swyddogion - Ar gyfer y systemau ariannol, bydd y cyfrifoldeb o sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n ddigonol yn cael ei gynnwys mewn disgrifiadau swydd priodol yn sgil ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cyllid fel y trefnwyd.<br><br>Dyledwyr / Cyfriflyfr / Credydwyr – Bydd y gwaith sy'n ymwneud â'r system ariannol yn rhan o ail-lansio CIVICA.<br><br>Cyflogres - Bydd dyletswyddau'r Gyflogres a'r Sefydliad yn cael eu gwahanu yn y system gyflogres yn sgil cyswllt rhwng y Swyddog A151 a Phennaeth y Proffesiwn - Adnoddau Dynol.<br><br>Mae'r Gofrestr Asedion wedi'i chwblhau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cofnodi anfonebau, cymeradwyo anfonebau a chaniatáu taliadau.<br><br>Sefydliad Adnoddau Dynol / y gyflogres - dylai swyddogaethau gael eu cyfyngu i swyddogion nad oes ganddynt fodd i brosesu'r gyflogres neu raid i gofnodion y sefydliad hwnnw a osodwyd gan y gyflogres gael eu hadolygu gan weithiwr annibynnol i sicrhau eu bod yn ddilys Dylai'r swyddog sy'n gyfrifol am redeg y gyflogres fod yn annibynnol ar brosesu'r gyflogres er mwyn sicrhau y cedwir y cywirdeb. Dylai adroddiadau eithrio gael eu rhedeg a'u gwirio gan weithiwr ar lefel oruchwyliol (annibynnol) yn ôl i'r dogfennau ffynhonnell. Dylai'r adroddiadau amrywiant gael eu gwirio gan weithiwr ar lefel oruchwyliol (annibynnol) er mwyn sicrhau cywirdeb. Dylid adolygu hawliau mynediad holl ddefnyddwyr systemau cyflogres / Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau priodoldeb, yn enwedig felly'r swyddog sy'n gyfrifol am gysoni'r gyflogres ac adolygu. | | | | |
| 2 | Polisïau Corfforaethol 1761.11/12 | Adolygu a gweithredu'r Adroddiad Polisïau Corfforaethol 1761 2011/12. | 07/10/2014 | 31/12/2014 dyddiad wedi newid i 29/04/2016 | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | 23/02/2016 - Gwaith yn mynd rhagddo yn dilyn penderfyniad ym mis Hydref 2015 i ddyrannu cyllid. Trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda darparwr ynghylch contract.<br><br>30/06/2016 - Contract wedi'i lofnodi gyda chyflenwr<br><br>2016/01/03 - Hyfforddiant ar gyfer gweinyddwyr systemau i gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2016. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r UDA ym Mai 2016 a nodwyd 7 o bolisïau allweddol yr UDA ar gyfer eu derbyn yn ystod y 12 mis cyntaf. Bydd gweithredu'r broses derbyn polisïau yn cychwyn ym mis Medi 2016. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Adroddiadau chwarterol ar lefelau derbyn y polisïau i'w gyflwyno i'r UDA (dyddiadau i'w gytuno) ynghyd ag adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Diweddariad 02/09/16 - Mae'r Awdurdod wedi cynnal ymarfer tendro priodol ar gyfer datrysiad rheoli polisïau. Llofnodwyd y cytundeb ar 1 Mawrth. Cydnabuwyd bod angen rhoi blaenoriaeth i 3 pholisi ar Lywodraethu Gwybodaeth ar gyfer y cam cyntaf o weithredu'r system - cyflwynir 1 bob mis. Mae'r UDA wedi derbyn adroddiad pellach ac wedi penderfynu blaenoriaethu 7 polisi ar gyfer eu derbyn yn y 12 mis cyntaf (Medi 2016 ymlaen) - bydd y 3 cyntaf yn ymwneud â Diogelu Data, 2 yn berthnasol i Iechyd a Diogelwch, 1 yn ymwneud ag Absenoldeb Salwch ac un â'r Safonau Iaith. Bydd yr UDA yn adolygu'r blaenoriaethu'n flynyddol. Mae gweinyddwyr wedi cael eu nodi ar gyfer y system ac wedi derbyn hyfforddiant ar 12 Gorffennaf 2016. Mae'r system ar gael yn awr i'r gweinyddwyr ac maent wrthi'n llwytho'r polisïau ar y system. Y nod yw cyflwyno'r system i'r staff fel llyfrgell o bolisïau corfforaethol sy'n adnodd defnyddiol o wybodaeth cyn cyflwyno'r angen i dderbyn polisïau (profion) ar y nifer fechan o feysydd a nodwyd gan yr UDA.<br><br>Diweddariad 31/10/16 - gwybodaeth i'w dosbarthu drwy'r Ddolen i esbonio'r Porth Polisi.<br><br>26/01/17 – Porth Polisïau ar gael i staff fel llyfrgell electronig ers 24/11/16. Y cam nesaf fydd gweithredu'r gofyniad o ran derbyn polisïau. Cynllun peilot yn mynd rhagddo yn yr Adran AD. Mae angen rhoi sylw i'r bylchau o ran manylion am y gwasanaethau yn y llyfr cyfeiriad Outlook cyn y gellir gweithredu'r system derbyn polisïau. Penaethiaid Gwasanaeth i gael manylion os oes angen cymryd unrhyw gamau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Trefniadau Diogelu Corfforaethol 053 2016/17 | 2.5a Yn yr achosion eithriadol a nodwyd, dylai Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod amcanion diogelu'n cael eu hymgorffori yn y broses cynllunio busnes i sefydlu diogelu'n gadarn fel rhan sylfaenol o'r holl agweddau ar unrhyw waith sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. | 09/09/16 | 31/03/17 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen | I'w gydlynu gan y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen |
